**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR 18 o Dachwedd 2024**

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Morwenna Pugh (Cadeirydd)

Mark Thomas

Rory Francis

Dewi Prysor Jones

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Peter Jones

Troy Maclean

Gareth Glyn Davies

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

1. **Derbyn Ymddiheuriadau**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dafydd Dafis a Marc Lloyd Griffiths.

2. **Datgan Buddiannau - Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol.**
   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **Cyfranogiad y Cyhoedd - Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud).**
   Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd wedi gwneud cais i annerch y cyngor.

4. **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 18fed o Dachwedd, 2024.**
   Nododd y Cynghorydd Mark Thomas fod angen newid iaith eitem 6 i sicrhau bod y Gymraeg yn dod gyntaf. Ar ôl gwneud y newidiadau, roedd y Cyngor yn fodlon bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

   **Cynigiwyd gan**: Cynghorydd Peter Jones
   **Eiliwyd gan**: Cynghorydd Gareth Glyn Davies

5. **Caeau Chwarae - Arolwg misol mis Tachwedd 2024 - Derbyn crynodeb o archwiliadau misol Helen Jones o'r caeau chwarae.**
   Holodd y Dirprwy Glerc a ddylai'r canghennau a oedd wedi'u gadael yng Nghae Baltic gael eu clirio. Nododd y byddai'n cysylltu â'r Swyddog Cynnal a Chadw i drefnu hyn.

   Nododd hefyd y byddai'n casglu mwy o wybodaeth am y siglen sydd wedi torri ym Mharc Manod ar gyfer y Cynghorydd Mark Thomas.
   **Cynigiodd** y Cynghorydd Mark Thomas y dylai'r Cyngor anfon llythyr o ddiolch at y cadetiaid lleol am eu gwaith plannu wrth gofebau'r dref. **Eiliwyd gan** y Cynghorydd Troy Mclean.
   Gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas hefyd i'r Cyngor prynu mwy o fylbiau i'w plannu yng Nghofgolofn Llan Ffestiniog a chytunodd pawb.

6. **Llwybrau Cerdded - Derbyn adroddiad gan swyddog cerdded llwybrau.**
Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at y cofnodion blaenorol a nododd ei bod wedi anfon e-bost at Gyngor Gwynedd, ond nad oedd wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.
**Cynigiwyd** gan y Cynghorydd Mark Thomas y dylai'r Cyngor ofyn i Gyngor Gwynedd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ardaloedd sy'n cael eu trwsio. **Eiliwyd gan**: Y Cynghorydd Troy Mcleana chytunodd pawb.
**Cynigiwyd** gan y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones y dylai'r Cyngor sefydlu system i nodi gwaith cynnal a chadw sydd â blaenoriaeth uchel (megis system goleuadau traffig). Cytunodd y Cyngor y gellid ystyried hyn yn y dyfodol a chytunodd pawb.

7. **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw - Diweddariad llafar yn y cyfarfod.**
Derbyn diweddariad llafar gan y Dirprwy Glerc, a eglurodd nad oedd ganddi'r wybodaeth wrth law oherwydd absenoldeb y Clerc.

8. **Rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Morwenna Pugh - I'r Cyngor Tref Ystyried y posibilrwydd o addasu oriau agor ac ar gau'r Parc er mwyn cyd-fynd â daylight savings.**
Eglurodd y Cadeirydd ei bod wedi cyflwyno'r eitem hon, ond na ellid ei thrafod oherwydd nad oedd y rheolau'n glir ynghylch Cadeirydd yn cyflwyno rhybudd o gynnig. Roedd yr opsiwn ar gael i gynghorydd arall gyflwyno'r cynnig yn y cyfarfod nesaf, os oeddent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ei drafod.

9. **Diweddariad ar faes parcio'r Berllan - Pant-yr-Ynn**
Nododd y Cynghorydd Mark Thomas nad oedd y wal a oedd fod i gael ei chynnwys yn y cynlluniau wedi ymddangos ar y brasluniau. Gofynnwyd i'r pensaer gynnwys hyn yn y cynllun.

**Cynigiwyd** y dylid cymeradwyo'r cynlluniau ar ôl nodi'r wal yn y cynllun, gan y Cynghorydd Troy Mclean. **Eiliwyd gan**: Cynghorydd Gareth Glyn Davies a chytunodd pawb.

10. **Ystyried dyfynbris am y gwaith o glirio parc sglefrio**
Nododd y Cyngor fod y prisiau a gynigiwyd yn rhesymol. Eglurodd y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones a'r Cadeirydd, Cynghorydd Morwenna Pugh, fanylion y gwaith ar ôl eu cyfarfod gyda'r cwmni ar y safle.
**Cynigiwyd gan**: Cynghorydd Geoffrey Watson Jones i dderbyn y pris ac iddo fo lunio Asesiad Risg cynhwysfawr, a fyddai angen ei lofnodi gan y contractwyr, cyn ei gyflwyno i'r Clerc i'w anfon ymlaen. **Eiliwyd gan**: Cynghorydd Dewi Prysor Jones a chytunodd pawb.

11. **Diweddariad ar waith y Dirprwy Glerc**

- Roedd wedi cysylltu â Chynghorydd Sir lleol i drafod glanhau'r palmentydd ger Siop Gloddfa a McColl's, yn ogystal â'r grisiau sy'n arwain o Dŷ Isallt i'r orsaf drenau. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal drannoeth gyda'r gwasanaeth lleol a'r Cynghorydd Sir.
- Llwybrau Cerdded: Nododd ei bod wedi e-bostio'r swyddog perthnasol am waith cynnal a chadw sydd wedi cael ei adrodd fwy nag unwaith, ac yn dal i aros am ymateb.
- Nid oedd wedi clywed unrhyw wybodaeth am bolisi gosod biniau halen gan y Cyngor Sir.
- Darllenodd e-bost byr gan y swyddog perthnasol, gan nodi na allai'r Cyngor drafod yr e-bost ar hyn o bryd.

- Nodwyd y byddai’r gwaith ar y coed yn digwydd yr wythnos hon, ond nad oedd amser penodol ar gael eto. Byddai’r contractwyr yn darparu dyfynbris ar gyfer gweddill y gwaith fel y gofynnwyd gan y Cyngor yn y cyfarfod diwethaf.
-

Daeth y cyfarfod i ben 19:22

**Enw a Llofnod y Cadeirydd : ______________________ - ________________________**

**Enw a Llofnod y Clerc : ______________________ - ________________________**